# PWYLLGOR APELAU

# 13 GORFFENNAF 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd) **(Yn yr Ystafell)**

**Cynghorwyr (Yn yr Ystafell):**
Ll.M. Davies N. Evans D. Jones

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
D. Owen

**Hefyd yn bresennol (Yn y Ystafell):**
C. Jones, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
R. Young, Partner Busnes Arweiniol (AD);
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd .

**Ystafell Pwyllgor 2, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE ac o bell:
9:45yb - 4:00yp**

[Sylwer: Cafodd y Pwyllgor egwyl i gael cinio am 1:10pm gan ailddechrau am 2:00pm]

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd S. Allen.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 MAWRTH 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2023 yn gofnod cywir.**

## 4. UNRHYW FATER ARALL

Nid oedd dim buddiannau personol.

5. **DDIM I'W GYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Pharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig a chanlyniad y prawf budd y cyhoedd o ran y materion hyn oedd:**

**"Bod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth bersonol ynghylch yr ymgeiswyr. Er y byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd, roedd y budd i'r cyhoedd o gadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth, am fod angen sicrhau nad oedd neb yn gwybod pwy oedd yr ymgeiswyr na'u teuluoedd".**

6. **YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN CYMUNEDAU**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddatgelu hunaniaeth unigolyn.**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd, ynghyd â'r Swyddog Comisiynu a'r Swyddog Ymchwilio penodedig, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (dosbarthwyd copïau o'r protocol ym mhecyn yr agenda.)

Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan y Swyddog Comisiynu, y Swyddog Ymchwilio y tyst a'r apelydd. Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd a'r Swyddogion Comisiynu

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r apêl a rhoi gwybod i'r apelydd, yn ysgrifenedig, am y dyfarniad llawn.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |